**Beirniadaeth Cystadleuaeth 342 – Barddoniaeth Bl.9**

**Beirniad: Osian Davies**

Diolch yn fawr i holl feirdd blwyddyn 9 am eich cerddi aeddfed ac ystyriol. Roedd pob un o'r 36 ymgais ddaeth i law eleni wedi dangos rhinweddau cadarnhaol, boed hynny drwy greadigrwydd, emosiwn, neu wreiddioldeb.

Thema'r gystadleuaeth eleni oedd 'Ni a Nhw', a roddodd gyfle i'r beirdd ysgrifennu am destun agos at adra, neu fynd ati i archwilio materion ehangach y byd. Roedd hi'n braf gweld amryw o themâu yn codi, oedd yn cynnwys chwaraeon, edrychiad person, rhyfeloedd, digartrefedd, yr iaith Gymraeg a natur. Dewisodd sawl ymgeisydd i ganolbwyntio ar y rhai llai ffodus na ni fel 'nhw', a chafodd pob cerdd ei thrin â gofal, aeddfedrwydd a sensitifrwydd.

Mewn ambell gerdd, roedd yna deimlad fod angen odli pob llinell, a bod rhai geiriau wedi eu gwasgu mewn er mwyn odli yn hytrach nag er mwyn atgyfnerthu'r dweud. Weithiau, mae strwythur llai pendant yn rhoi'r rhyddid i chi ddweud mwy mewn llai o eiriau! Un ymgeisydd a ddewisodd eu geiriau'n ofalus oedd Rwdlan Fach, a'r dewis o odli rŵan ac yn y man yn effeithiol wrth gyflymu rhythm y gerdd. Gan Rwdlan Fach daeth rai o linellau gorau'r gystadleuaeth hefyd, gyda

*'arweinwyr cyfoethog yn cyfansoddi*

*miwsig y bomiau -*

*a'r alaw yn chwalu cartrefi.'*

yn enwedig yn effeithiol.

Roedd sawl cerdd â neges hynod o bwysig yn perthyn iddi. Roedd cerdd Blodyn Bach am y gwahaniaeth rhwng sut mae pobl yn edrych, a'r pwysigrwydd i garu eich hun a chofleidio'r gwahaniaeth hwnnw yn un oedd yn braf ei ddarllen. Fe wnaeth Cae Ysgawen ein hatgoffa mai'r unig wahaniaeth rhyngom ni a'r rhai sy'n byw mewn ofn o fomiau'n eu targedu bob dydd yw lwc ddaearyddol, nid yn annhebyg i Eira, oedd yn sôn am bwysigrwydd bod yn ddiolchgar am yr hyn sydd gennym.

Roedd un neu ddau yn sefyll allan am ddewis themâu unigryw, a roedd neges cerdd 'Llais afon Gwy' am weld yr harddwch mewn natur yn un ddaeth â gwen i'r wyneb. Fe gawsom ymdriniaeth wreiddiol gan Mab y Mynydd hefyd, yn mynd i'r afael â'r ddeddf Treth Etifeddiaeth sy'n wynebu ffermwyr heddiw. Y 'Nhw' yw'r '*gwleidyddion anwybodus,*' ac mae gallu Mab y Mynydd i adrodd stori mewn nifer cyfyngedig o eiriau

yn un i'w ganmol. Yma hefyd ceir yr ymdriniaeth orau o eirfa yn y gystadleuaeth. Mae'r pennill olaf

*'Pan ddaw'r bil wedi marwolaeth*

*Dalen o bapur a data fydd yn fêl*

*ar fysedd y rhai sy'n esgus malio.*

*Am mai nhw fydd yn ennill ar ddiwrnod y sêl.'*

yn crynhoi'r neges yn effeithiol iawn.

Ac mae 'na un gerdd fach ar ôl. Ac yng ngwaith Brenin Arthur, cawn gerdd orau'r gystadleuaeth. Sôn mae Brenin Arthur am eu profiad ar ôl bod allan ar gwch yn Llyn Tegid;

*'Mae'n dannedd ni'n clecian,*

*mae'n wynebau ni'n goch,'*

meddai, a'r '*sgidiau soeglyd'* yn ychwanegu at y llun yn ein pennau. Mae'n '*dyheu am gynhesrwydd y caban sychu,'* ac yn yr eiliad hon, tra'n rhynllyd, ar lwgu, mae'n dechrau meddwl '*am blant 'run oed â ni mewn cychod bach,'* ac yna'r ail-adrodd o

'*eu dannedd nhw'n clecian*

*a'u wynebau nhw'n goch*.'

Mae'r cyferbyniad o'r cysur a'r cynhesrwydd sy'n aros amdano fo, a'r dim byd sy'n aros am y 'nhw' yn un trawiadol iawn. Mae'r gwahaniaeth yma'n cael ei atgyfnerthu yn llinell olaf y gerdd '*Rhedom i fyny'r llwybr.'* Er meddwl amdanyn nhw, rhedeg at y cysur mae'r person yn y gerdd.

Mae Brenin Arthur wedi dod â'r anghyfarwydd law yn llaw â'r cyfarwydd, ac wedi gwneud hynny gydag iaith o safon, a gallu gwych o beintio darlun. Mae cymaint yn cael ei ddweud yma mewn un gerdd fer, ac am hynny, mae Brenin Arthur yn llwyr haeddu gwobr gyntaf y gystadleuaeth eleni. Yn ail mae Mab y Mynydd am ei ymdriniaeth wreiddiol, ac yn drydydd mae Rwdlan Fach am sawl llinell sydd wedi aros yn y cof.

1. Brenin Arthur
2. Mab y Mynydd

3. Rwdlan Fach